Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Raffl Wythnos Siarad: Telerau & Amodau

## Disgrifiad

Mae Wythnos Siarad yn ymgyrch flynyddol wedi'i gynnal gan Undeb y Myfyrwyr, lle rydym yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddarparu adborth am y newidiadau hoffent weld ym Mhrifysgol Caerdydd. Dyma'ch cyfle i leisio'ch barn am y materion sy'n wirioneddol bwysig trwy ateb ein harolwg ar-lein.

Fel rhan o Wythnos Siarad, byddwn yn cynnal raffl, lle fydd un myfyriwr sy'n cyflwyno adborth Wythnos Siarad yn ennill £250 mewn arian parod. Bydd 10 myfyriwr arall yn ennill talebau £20 i'w gwario yn adeilad Undeb y Myfyrwyr.

## Gofynion y Gystadleuaeth

Bydd pob myfyriwr sy'n ateb ein harolwg Wythnos Siarad ar-lein neu sy'n darparu adborth i un o'n stondinau o amgylch y campws yn awtomatig yn rhan o'r raffl os caiff rhif myfyriwr dilys ei ddarparu. Ni fydd myfyrwyr nad sy'n darparu rhif myfyriwr, neu sy'n darparu rhif anghywir, yn cael eu cynnwys.

Bydd rhifau myfyrwyr unigol ond yn cael eu defnyddio ar gyfer y raffl a dim byd arall. Mae holl fyfyrwyr cyfredol Prifysgol Caerdydd yn gymwys i gymryd rhan.

## Dyddiadau

Bydd Wythnos Siarad 2024 yn digwydd rhwng dydd Llun 29ain Ionawr – dydd Gwener 2il Chwefror.

## Enillwyr

Bydd yr enillwyr yn cael eu dewis ar hap ar ddiwedd Wythnos Siarad, wedi i ni dderbyn yr holl ymatebion. Byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r enillwyr trwy eu cyfeiriad e-bost myfyriwr er mwyn trefnu casglu eu gwobr. Bydd enillwyr nad sy'n ateb o fewn mis yn colli eu cyfle i hawlio'u gwobr.

## Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y raffl, neu ymgyrch Wythnos Siarad, cysylltwch â SUCampaigns@caerdydd.ac.uk